# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Lle held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Iau, 11eg Gorffennaf, 2024 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
| --- | --- |
| County Councillor Jane Lucas (Chairman)<br>County Councillor (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: Louise Brown, Emma Bryn, Tomos Davies, Lisa Dymock, Jackie Strong, Laura Wright, Tudor Thomas, Peter Strong and Angela Sandles | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Pennie Walker, Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg |

**APOLOGIES:** Councillor Maria Stevens

1. **Ethol Cadeirydd.**

   Etholwyd y Cynghorydd Lucas - cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Dymock ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Brown.

2. **Penodi Is-Gadeirydd.**

   Etholwyd y Cynghorydd Dymock - cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Brown ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Davies.

3. **Datganiadau o Fuddiant**

   Datganodd y Cynghorydd Brown fuddiant nad oedd yn rhagfarnu oherwydd ei fod yn gwirfoddoli yng Nghas-gwent gyda Chysgodfa Nos Eglwysi Ynghyd.

4. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Siaradodd aelod o'r cyhoedd am y ddeiseb gyntaf a gyflwynwyd heddiw, ar adfer lloches nos yn Nhrefynwy.

   Darllenwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd gan y Rheolwr Craffu Hazel Ilett, ynghylch Lôn Goldwire yn Nhrefynwy. Yn dilyn trafodaeth gan yr Aelodau, cytunwyd i ofyn am ymateb ar y mater gan swyddogion a'r Aelod Cabinet – CAM GWEITHREDU

5. **Deisebau a dderbyniwyd - i argymell camau gweithredu i'r Cabinet:**

   - **6a Adfer lloches nos yn Nhrefynwy.**
   - **6b Newid defnydd eiddo manwerthu a masnachol gwag yng Nghanol Tref Trefynwy.**
   - **6c Cyflwyno system 'Cylch Ymgysylltu' a phroses brysbennu**

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y pwyllgor y dylid cyfeirio Deiseb 6a i'r Cyngor am ddadl lawn. Mae deisebau 6b a 6c yn gofyn am ymateb ysgrifenedig manwl gan yr Aelod Cabinet a swyddogion perthnasol o fewn 6 wythnos i'r pwyllgor a'r Deisebydd Arweiniol. – CAM GWEITHREDU

6. **<u>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 23/24 Adroddiad Monitro - Craffu cynnydd y Cyngor.</u>**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Angela Sandles a Pennie Walker yr adroddiad ac atebwyd cwestiynau'r Aelodau:

**Pwyntiau allweddol a wnaed gan yr Aelodau:**

- Gofynnwyd a yw'r Cyngor yn bwriadu parhau i gefnogi prosiect iechyd meddwl gwledig Mind, gyda'r ffrwd ariannu wedi dod i ben ar 31ain Mai. – **<u>CAM GWEITHREDU: swyddogion i ddod yn ôl gyda chynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf</u>**
- Dywedodd aelod fod siaradwyr Cymraeg yr awdurdod yn parhau i fod ar eu colled o ran gallu sgwrsio yn eu hiaith gyntaf wrth ymwneud â'r Cyngor, a bod Sir Fynwy ar ei hôl hi o'i gymharu ag awdurdodau eraill yn hyn o beth.
- Yn enwedig yn y sefyllfa lle byddai preswylydd yn galw gyda mater cymhleth, dadleuwyd bod angen i'r Cyngor wneud mwy o gynnydd o ran cael gallu mewnol yn y Gymraeg, yn benodol drwy recriwtio'n well.
- Ynglŷn â chyfleoedd gwaith i bobl anabl, gofynnwyd a oedd hyn yn cynnwys gweithio hyblyg a dewisiadau rhan amser.
- Awgrymwyd defnyddio'r nodweddion gwarchodedig gwirioneddol o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn yr adroddiad yn lle termau generig megis rhyw a hil, a chynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol hefyd.
- Gofynnwyd faint o sefydliadau dyled sydd wedi cael eu cefnogi gan y Cyngor i oresgyn anghydraddoldebau o ran mynediad at ffyniant economaidd ac ymdrin â thlodi plant.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd peidio â datblygu hierarchaeth o nodweddion gwarchodedig a'u hystyried i gyd yn gyfartal.
- Croesawyd rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg newydd a diolch iddi am y gwaith y mae'n ei wneud dros yr anabl.
- Cynigiwyd bod sefyllfa Aelodau o deuluoedd y lluoedd arfog a chyn-filwyr yn cael ei gynnwys mewn gwaith cydraddoldeb yn y dyfodol, yn benodol mewn asesiadau effaith integredig.
- Gofyn, fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, beth rydym yn ei wneud i gyrraedd Lefel 3.
- Holwyd am gynlluniau'r dyfodol ar gyfer y fenter Adeiladu Teuluoedd Cryfach.
- Gofynnwyd pa rwystrau posibl a ragwelir wrth gyflawni'r cynlluniau a'r amcanion, a sut y gellir addasu'r cynllun mewn amgylchiadau heriol e.e. pandemig yn y dyfodol.
- Nodwyd pa mor bwysig yw hi i'r rhai yr effeithir arnynt gael mecanwaith i weld sut y bydd y cynllun hwn yn eu cefnogi, gan ofyn sut y byddwn yn derbyn adborth gan unigolion ar weithrediad y cynllun a monitro ei gynnydd.
- Mynegwyd pwysigrwydd meithrin perthynas dda rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig, a chytuno na ddylai fod unrhyw hierarchaeth rhwng nodweddion gwarchodedig.
- Nodwyd bod annog pobl anabl i mewn i waith yn bwysig iawn ond er mwyn gwneud hynny mae angen cefnogi gofalwyr hefyd ond mae gwasanaethau cefnogol wedi eu torri, felly mae'n anodd iawn iddynt.
- Mynegwyd pryder bod gan Sir Fynwy boblogaeth sy'n heneiddio ac eto mae yna awydd tuag at wasanaethau digidol – ni ddylem adael pobl ar ôl, ac felly mae angen ffordd i bobl ryngweithio â'r Cyngor heb fod angen gwasanaethau digidol i wneud hynny. Mae angen ystyried y rhai sydd â nam ar y synhwyrau hefyd.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Rhoddwyd diolch i'r Aelod Cabinet a Pennie Walker am yr adroddiad ac am fynychu heddiw. Rydym wedi ymdrin â nifer o bwyntiau, sef nodweddion gwarchodedig, y symudiad tuag at gyfleoedd cyflogaeth i bobl anabl, adeiladu teuluoedd cryfach, monitro ac adrodd yn ôl ar yr hyn a ddysgwyd, gan gynnwys statws y Lluoedd Arfog, dim hierarchaeth ymhlith nodweddion gwarchodedig, cymorth i ofalwyr, cefnogaeth i Mind a chyllid parhaus, gwasanaethau digidol, a chynyddu gallu Cymraeg yr Awdurdod wrth gyfathrebu â thrigolion.

7. **Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a Rhestr o Gamau Geithredu'r Pwyllgor Craffu Lle.**

Cytunodd y pwyllgor i newid amser rhagosodedig y cyfarfodydd o 10am i 2pm – CAM GWEITHREDU

8. **Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet.**

9. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Gofynnodd Aelod am y fersiwn mwy cryno o'r cofnodion sy'n cael eu cynhyrchu. Ailadroddodd y Rheolwr Craffu, gyda thrawsgrifiadau llawn a recordiadau ar gael ar wahân, fod y cofnodion yn bennaf yn cyfleu bod y cyfarfod wedi ei gynnal, yn nodi unrhyw argymhellion neu gamau i'w cymryd, ac yn cofnodi'r hyn a drafodwyd - gyda'r cyfrifoldeb ar gasglu'r her gan yr Aelodau, yn unol â chais yr archwilwyr.

Cadarnhawyd y cofnodion, cynigwyd gan y Cynghorydd Dymock ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Strong.

10. **Cyfarfod Nesaf: 24ain Gorffennaf, 2024 am 4.30pm.**

24ain Gorffennaf, 2024 am 4.30pm.

The meeting ended at **11.18 am**